

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)
Cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys
Stadiwm Swalec, Caerdydd, 25 Medi 2019

Crynodeb o'r cyfarfod

1. Croeso a chyflwyniadau

Estynnodd Llywodraeth Cymru groeso i'r sawl a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

2. Cofnodion

Cytunodd y grŵp fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2019 yn gywir.

3. Diweddariad ynghylch y Bil

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ynghylch y Bil a gwaith y grwpiau gorchwyl a gorffen eraill. Soniodd Llywodraeth Cymru fod fideo byr wedi'i gynhyrchu a oedd yn esbonio cefndir y Bil a'i fwriad o ran polisi, ac y byddai'r fideo yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau. Bydd y fideo ar gael ar wefan gorfforaethol Llywodraeth Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

4. Cadarnhau'r cylch gwaith

Roedd y cylch gwaith wedi'i ddiweddarau er mwyn ymateb i'r adborth a gafwyd gan aelodau'r grŵp yn y cyfarfod diwethaf. Cadarnhaodd y grŵp y cylch gwaith a oedd wedi'i ddiweddarau. Mae'n ddogfen fyw ac mae'n bosibl y bydd angen i'r adran ar amserau a dyddiadau allweddol newid wrth i waith y grŵp fynd rhagddo.

5. Seilwaith presennol ar gyfer Cynlluniau Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yng Nghymru

Cyflwynwyd trosolwg o'r cynlluniau dargyfeirio sydd ar waith ym mhob un o'r pedwar heddlu sydd yng Nghymru. Cafodd y trosolwg ei lunio ar sail y drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

Roedd y drafodaeth a gafwyd yn dilyn y cyflwyniad yn cynnwys ystyriaeth i addasu unrhyw gynllun dargyfeirio er mwyn ei ddefnyddio gyda phobl ifanc; y trefniadau presennol ar gyfer cyfeirio pobl at gynlluniau dargyfeirio a'r mathau perthnasol o ddatrysiadau y tu allan i'r llys; a'r canllawiau ynghylch defnyddio cyfiawnder adferol ar y cyd â rhai datrysiadau cymunedol.

Nodwyd nad yw pobl ifanc dan 18 oed yn gymwys ar gyfer cynlluniau dargyfeirio i oedolion, ond y gallent fod yn rhieni ac y byddai angen eu hystyried felly. Mae gan y sector cyfiawnder ieuencid gynlluniau dargyfeirio sydd wedi ennill eu plwyf, ac mae angen cyd-fynd â'r Glasbriant ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid i Gymru sy'n nodi'r egwyddorion arweiniol ar gyfer ymdrin â phobl ifanc sydd naill ai yn y system cyfiawnder troseddol neu mewn perygl o fod yn rhan ohoni.

6. Prosesau

Cytunwyd y byddai angen mwy o wybodaeth am gynlluniau dargyfeirio sy'n gweithredu ar draws Cymru ar gyfer pobl ifanc, ac y byddai aelodau'r grŵp yn ystyried y trosolwg o gynlluniau dargyfeirio a gyflwynwyd ac yn darparu gwybodaeth ychwanegol yn ôl y gofyn am ardal eu heddlu nhw, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth am gynlluniau dargyfeirio yn gywir.

Bu'r grŵp yn ystyried y map prosesau dargyfeirio a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ar sail y map prosesau a ddarparwyd gan Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Dyfed-Powys. Byddai'r rhain yn cael eu dosbarthu er mwyn i'r aelodau allu amlygu unrhyw newidiadau a awgrymir er mwyn ymgorffori manylion y prosesau sydd ar waith ar draws ardaloedd y pedwar heddlu. Cytunodd Gwasanaeth Erlyn y Goron i rannu â Llywodraeth Cymru y ffurflen asesu ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed sy'n cyflawni trosedd.

7. Trafodaeth ynghylch opsiynau ar gyfer cynllun dargyfeirio

Yn y cyfarfod diwethaf, cafodd opsiynau ar gyfer cynllun dargyfeirio eu hawgrymu. Yn y cyfarfod hwn, bu'r grŵp yn ystyried manteision ac anfanteision chwe opsiwn. Roedd y chweched opsiwn yn gyfuniad o opsiwn 3 ac opsiwn 5.

- Opsiwn 1 – Darparwr cenedlaethol, megis mudiad yn y trydydd sector, yn darparu cymorth rhianta
- Opsiwn 2 – Gellid datblygu cynllun dargyfeirio wedi'i deilwra
- Opsiwn 3 – Cyfeirio pobl at gynlluniau dargyfeirio sy'n bodoli eisoes, megis y Cynllun Braenaru i Fenywod neu Checkpoint
- Opsiwn 4 – Cyfeirio pobl at gymorth sy'n bodoli eisoes, megis Teuluoedd yn Gyntaf
- Opsiwn 5 – Gellid datblygu cwrs wedi'i deilwra a fyddai'n cynnwys elfen o 'addysg' am rianta cadarnhaol ac elfen o reoli dicter
- Opsiwn 6 – Cyfuniad o opsiwn 3 ac opsiwn 5.

Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried addasrwydd rhaglenni rhianta sy'n bodoli eisoes ac yn rhannu [Canllawiau Llywodraeth Cymru: Cymorth wrth Rianta](#) â'r grŵp, sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am ystod eang o raglenni rhianta. Cytunwyd hefyd y byddai egwyddorion sylfaenol cynllun dargyfeirio yn cael eu hystyried yn y cyfarfod nesaf.

8. Sylwadau clo ac unrhyw fater arall

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal naill ai tua chanol mis Rhagfyr neu ym mis Ionawr. Diolchodd Llywodraeth Cymru i aelodau'r grŵp am eu hamser ac am rannu eu harbenigedd.